**Y Pwyllgor Busnes**

**Cofnodion BC(3)07-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 2 Hydref 2007

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Yr Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Y Dirprwy Weinidog dros Dai

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)07-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 25 Medi 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion gerbron y pwyllgor ar ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu er mwyn eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)08-07(p1)**

3.1 Nododd y pwyllgor y busnes ar gyfer 2 a 3 Hydref 2007.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod yr eitemau busnes canlynol a oedd i'w trafod ddydd Mawrth, i'w gohirio tan 9 Hydref.

Y datganiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar ddatblygu hawliau dynol;

Y ddadl ar yr ymgynghoriad ar Gynllun Gofodol Cymru.

3.3 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y câi'r datganiadau llafar canlynol eu traddodi mewn cyfarfod llawn:

Datganiad gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am golli swyddi yng Nghaerdydd, ddydd Mawrth;

Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ar y Morglawdd Hafren arfaethedig, ddydd Mawrth;

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am drais ac ymddygiad ymosodol yn y gwasanaeth iechyd gwladol, ddydd Mercher.

3.4 Cytunodd y pwyllgor na ddylid cynnal y cyfnod pleidleisio cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3-wythnos busnes y Llywodraeth - BC(3)08-07(p2)**

3.5 Nododd y pwyllgor amserlen 3-wythnos busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3-wythnos busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)08-07(p3)**

3.6 Penderfynodd y pwyllgor ar yr amserlen 3-wythnos ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Unrhyw fusnes arall**

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**